



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2016 Rhif 386 (Cy. 120)**

**2016 No. 386 (W. 120)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Cyfansoddiad, Marchnata a  
Defnydd) (Cymru) 2016**

**The Animal Feed (Composition,  
Marketing and Use) (Wales)  
Regulations 2016**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru yn unig—

- (a) yn darparu ar gyfer gorfodi neu weithredu'n barhaus Rheoliadau a Chyfarwyddebau'r UE ar ddiogelwch bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, ychwanegion bwyd anifeiliaid, marchnata a defnyddio bwyd anifeiliaid, sylweddau annymunol (halogion) mewn bwyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol;
- (b) yn darparu ar gyfer cyfeiriadau newidiadwy at offerynnau'r UE a bennir yn *rheoliad 2(3)*;
- (c) yn rhagnodi troseddau a chosbau am fethu â chydymffurfio â'r Rheoliadau; ac
- (d) yn dirymu Rheoliadau penodol neu'n gwneud diwygiadau canlyniadol i Rheoliadau penodol.

Yn Rhan 2 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi darpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1) drwy ei gwneud yn drosedd i fynd yn groes i'r darpariaethau hynny (*rheoliad 4*) a thrwy ddynodi'r awdurdodau cymwys at ddibenion yr offeryn UE hwnnw (*rheoliad 5*).

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales only —

- (a) provide for the continuing enforcement or implementation of EU Regulations and Directives on feed safety, genetically modified feed, feed additives, the marketing and use of feed, undesirable substances (contaminants) in feed and feed for particular nutritional purposes;
- (b) provide for ambulatory references to the EU instruments specified in *regulation 2(3)*;
- (c) prescribe offences and penalties for failure to comply with the Regulations; and
- (d) revoke or make consequential amendments to certain Regulations.

In Part 2 these Regulations provide for the enforcement of specified provisions of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety (OJ No L 31, 1.2.2002, p 1) by making it an offence to contravene those provisions (*regulation 4*) and by designating the competent authorities for the purposes of that EU instrument (*regulation 5*).

Yn Rhan 3 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi darpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t 1) (*rheoliadau 7 ac 8*).

Yn Rhan 4 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi darpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t 29) (*rheoliad 10*).

Yn Rhan 5 mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio, gan ddiwygio Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/511/EEC, Cyfarwyddebau'r Cyngor 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC a 96/25/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/217/EC (OJ Rhif L 229, 1.9.2009, t 1) (*rheoliadau 12 a 13 ac Atodlen 1*).

Yn Rhan 6 mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid (OJ Rhif L 140, 30.5.2002, t 10) (*rheoliadau 14 a 15*).

Yn Rhan 7 mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/38/EC sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwydydd anifeiliaid at ddbenion maethol penodol (OJ Rhif L 62, 6.3.2008, t 9), (*rheoliad 16 a 17*).

Yn Rhan 8 mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi uchafswm y cosbau y caiff llys eu gosod ar euogfarn am drosedd o dan y Rheoliadau hyn (*rheoliad 18*) ac yn dynodi awdurdodau bwyd anifeiliaid lleol fel rhai sydd â'r ddyletswydd i orfodi (*rheoliad 19*).

Yn Rhan 9 mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (*rheoliad 20*) ac yn dirymu'n llwyr neu'n rhannol offerynnau penodol (*rheoliad 21 ac Atodlen 2*).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW neu ar wefan yr Asiantaeth yn [www.food.gov.uk/wales](http://www.food.gov.uk/wales).

In Part 3 these Regulations provide for the enforcement of specified provisions of Regulation (EC) No 1829/2003 of the European Parliament and of the Council on genetically modified food and feed (OJ No L 268, 18.10.2003, p 1) (*regulations 7 and 8*).

In Part 4 these Regulations provide for the enforcement of specified provisions of Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition (OJ No L 268, 18.10.2003, p 29) (*regulation 10*).

In Part 5 these Regulations provide for the enforcement of Regulation (EC) No 767/2009 of the European Parliament and of the Council on the placing on the market and use of feed, amending European Parliament and Council Regulation (EC) No 1831/2003 and repealing Council Directive 79/373/EEC, Commission Directive 80/511/EEC, Council Directives 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC and 96/25/EC and Commission Decision 2004/217/EC (OJ No L 229, 1.9.2009, p 1) (*regulations 12 and 13 and Schedule 1*).

In Part 6 these Regulations implement Directive 2002/32/EC of the European Parliament and of the Council on undesirable substances in animal feed (OJ No L 140, 30.5.2002, p 10) (*regulations 14 and 15*).

In Part 7 these Regulations implement Commission Directive 2008/38/EC establishing a list of intended uses of animal feedingstuffs for particular nutritional purposes (OJ No L 62, 6.3.2008, p 9), (*regulation 16 and 17*).

In Part 8 these Regulations prescribe the maximum penalties that a court may impose on conviction for an offence under these Regulations (*regulation 18*) and designate local feed authorities as having the duty to enforce (*regulation 19*).

In Part 9 these Regulations make consequential amendments to the Official Feed and Food controls (Wales) Regulations 2009 (*regulation 20*) and revoke wholly or partially certain instruments (*regulation 21 and Schedule 2*).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency at Food Standards Agency Wales, 11<sup>th</sup> Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW or from the Agency's website at [www.food.gov.uk/wales](http://www.food.gov.uk/wales).

**2016 Rhif 386 (Cy. 120)**

**2016 No. 386 (W. 120)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Cyfansoddiad, Marchnata a  
Defnydd) (Cymru) 2016**

**The Animal Feed (Composition,  
Marketing and Use) (Wales)  
Regulations 2016**

*Gwnaed* 15 Mawrth 2016

*Made* 15 March 2016

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 17 Mawrth 2016

*Laid before the National Assembly for Wales*  
17 March 2016

*Yn dod i rym* 12 Mai 2016

*Coming into force* 12 May 2016

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 66, 68, 74A a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(1) ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 66, 68, 74A and 84 of the Agriculture Act 1970(1) and section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the European Communities Act 1972(2).

- 
- (1) 1970 p. 40. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan “the Ministers”, i’r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672, a’u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mewnosodwyd adran 74A gan baragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Diwygiwyd adran 84 gan O.S. 2004/3254.
- (2) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac fe’i diwygiwyd gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

- 
- (1) 1970 c. 40. Functions formerly exercisable by “the Ministers”, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I. 1999/672, and subsequently transferred to the Welsh Ministers by section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Section 74A was inserted by paragraph 6 of Schedule 4 to the European Communities Act 1972 (c. 68). Section 84 was amended by S.I. 2004/3254.
- (2) 1972 c. 68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and amended by Part 1 of Schedule 1 to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion rheoli a rheoleiddio rhyddhau'n fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a'u symudiadau trawsffiniol(1), mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir iddynt(2), mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffytoiechydol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd(3) a mesurau mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(4).

Fel y nodir uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at yr Atodiadau i offerynnau'r UE a grybwyllir yn rheoliad 2(3) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr Atodiadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Bu ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod y cyfnod o lunio'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(5) neu, yn achos darpariaethau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, adran 84(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of the control and regulation of the deliberate release, placing on the market and transboundary movements of genetically modified organisms(1), measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(2), measures in the veterinary and phytosanitary fields for the protection of public health(3) and measures in relation to the common agricultural policy of the European Union(4).

As set out above, these Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references in these Regulations to the Annexes to the EU instruments mentioned in regulation 2(3) to be construed as references to those Annexes as they may be amended from time to time.

There has been open and transparent public consultation during the preparation of these Regulations in accordance with the requirements of Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(5) or, in the case of provisions relating to feed for non food-producing animals, of section 84(1) of the Agriculture Act 1970.

- 
- (1) O.S. 2003/2901. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
  - (2) O.S. 2005/1971. Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi. Nid yw'r dynodiad yn estyn i fesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol (gan gynnwys rheolyddion twf) neu gynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid, ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau gwella treuliadwyedd, sefydlogyddion fflora'r perfedd, neu sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.
  - (3) O.S. 2008/1792.
  - (4) O.S. 2010/2690. Nid yw'r dynodiad yn estyn i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cynhyrchion meddyginiaethol y bwriedir eu defnyddio mewn bwyd anifeiliaid, ac eithrio darpariaeth sy'n ymwneud â sylweddau sy'n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd, sylweddau gwella treuliadwyedd, neu sefydlogyddion fflora'r perfedd.
  - (5) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, t 1).

- 
- (1) S.I. 2003/2901. The functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.
  - (2) S.I. 2005/1971. The functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006. The designation does not extend to measures concerning feed containing medicinal products (including growth regulators) or medicinal products when destined for use in feed except provision concerning digestibility enhancers, gut flora stabilisers, or substances which favourably affect the environment.
  - (3) S.I. 2008/1792.
  - (4) S.I. 2010/2690. The designation does not extend to making provision in respect of feed that contains medicinal products destined for use in feed, except provision concerning substances that favourably affect the environment, digestibility enhancers, or gut flora stabilisers.
  - (5) OJ No L 31, 1.2.2002, p 1, as last amended by Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council laying down provisions for the management of expenditure relating to the food chain, animal health and animal welfare, and relating to plant health and plant reproductive material (OJ No L 189, 27.6.2014, p 1).

## RHAN 1

### Cyflwyniad a chyffredinol

#### Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Mai 2016 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

#### Dehongli a chwmpas

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “yr Asiantaeth (*“the Agency”*) yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr “awdurdod bwyd anifeiliaid” (*“feed authority”*) yw awdurdod a nodir yn adran 67(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 fel awdurdod sydd â'r ddyletswydd i orfodi Rhan IV o'r Ddeddf honno o fewn ei ardal;

ystyr “Cyfarwyddeb 82/475” (*“Directive 82/475”*) yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 82/475/EEC sy'n gosod y categorïau o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid y caniateir eu defnyddio at ddibenion labelu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid anwes(1);

ystyr “Cyfarwyddeb 2002/32” (*“Directive 2002/32”*) yw Cyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid(2);

ystyr “Cyfarwyddeb 2008/38” (*“Directive 2008/38”*) yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/38/EC sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwydydd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol(3);

ystyr “Rheoliad 178/2002” (*“Regulation 178/2002”*) yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4);

- 
- (1) OJ Rhif L 213, 21.7.1982, t 27. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb hon ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 98/67/EC (OJ Rhif L 261, 24.9.1998, t 10).
- (2) OJ Rhif L 140, 30.5.2002, t 10. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb hon ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/186 (OJ Rhif L 31, 7.2.2015, t 11).
- (3) OJ Rhif L 62, 6.3.2008, t 9. Diwygiwyd y Gyfarwyddeb hon ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1123/2014 (OJ Rhif L 304, 23.10.2014, t 81).
- (4) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 189, 27.6.2014, p 1).

## PART 1

### Introductory and general

#### Title, commencement and application

1. —(1) The title of these Regulations is the Animal Feed (Composition, Marketing and Use) (Wales) Regulations 2016.

(2) These Regulations come into force on 12 May 2016 and apply in relation to Wales.

#### Interpretation and scope

2.—(1) In these Regulations—

“the Agency” (*“yr Asiantaeth”*) means the Food Standards Agency;

“Directive 82/475” (*“Cyfarwyddeb 82/475”*) means Commission Directive 82/475/EEC laying down the categories of feed materials which may be used for the purposes of labelling compound feedingstuffs for pet animals(1);

“Directive 2002/32” (*“Cyfarwyddeb 2002/32”*) means Directive 2002/32/EC of the European Parliament and of the Council on undesirable substances in animal feed(2);

“Directive 2008/38” (*“Cyfarwyddeb 2008/38”*) means Commission Directive 2008/38/EC establishing a list of intended uses of animal feedingstuffs for particular nutritional purposes(3);

“feed authority” (*“awdurdod bwyd anifeiliaid”*) means an authority identified in section 67(1) of the Agriculture Act 1970 as having the duty to enforce Part IV of that Act within its area;

“Regulation 178/2002” (*“Rheoliad 178/2002”*) means Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(4);

- 
- (1) OJ No L 213, 21.7.1982, p 27. This Directive was last amended by Commission Directive 98/67/EC (OJ No L 261, 24.9.1998, p 10).
- (2) OJ No L 140, 30.5.2002, p 10. This Directive was last amended by Commission Regulation (EU) No 2015/186 (OJ No L 31, 7.2.2015, p 11).
- (3) OJ No L 62, 6.3.2008, p 9. This Directive was last amended by Commission Regulation (EU) No 1123/2014 (OJ No L 304, 23.10.2014, p 81).
- (4) OJ No L 31, 1.2.2002, p 1. This Regulation was last amended by Regulation (EU) No 652/2014 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 189, 27.6.2014, p 1).



ystyr “Rheoliad 767/2009” (“*Regulation 767/2009*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a’i ddefnyddio, sy’n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 79/373/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 80/511/EEC, Cyfarwyddebau’r Cyngor 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC a 96/25/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2004/217/EC(1);

ystyr “Rheoliad 1829/2003” (“*Regulation 1829/2003*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig(2);

ystyr “Rheoliad 1831/2003” (“*Regulation 1831/2003*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ychwanegion i’w defnyddio mewn maeth anifeiliaid(3).

(2) Mae gan unrhyw ymadrodd a ddefnyddir y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 178/2002, Rheoliad 1831/2003 neu Rheoliad 767/2009 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd ganddo yn y Rheoliad UE o dan sylw.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475, Cyfarwyddeb 2002/32, Cyfarwyddeb 2008/38, Rheoliad 1831/2003 neu Rheoliad 767/2009 yn gyfeiriad at yr Atodiad hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.

(4) Nid yw’r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw ychwanegyn bwyd anifeiliaid yng nghategori (d) neu (e) o Erthygl 6(1) of Rheoliad 1831/2003, ac eithrio’r rheini yn y grwpiau swyddogaethol a restrir ym mharagraff 4(a), (b) ac (c) o Atodiad 1 i’r Rheoliad hwnnw(4).

“Regulation 1829/2003” (“*Rheoliad 1829/2003*”) means Regulation (EC) No 1829/2003 of the European Parliament and of the Council on genetically modified food and feed(1);

“Regulation 1831/2003” (“*Rheoliad 1831/2003*”) means Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council on additives for use in animal nutrition(2);

“Regulation 767/2009” (“*Rheoliad 767/2009*”) means Regulation (EC) No 767/2009 of the European Parliament and of the Council on the placing on the market and use of feed, amending European Parliament and Council Regulation (EC) No 1831/2003 and repealing Council Directive 79/373/EEC, Commission Directive 80/511/EEC, Council Directives 82/471/EEC, 83/228/EEC, 93/74/EEC, 93/113/EC and 96/25/EC and Commission Decision 2004/217/EC(3);

(2) Any expression used in these Regulations and in Regulation 178/2002, Regulation 1831/2003 or Regulation 767/2009 has the meaning in these Regulations that it bears in the EU Regulation concerned.

(3) Any reference in these Regulations to an Annex to Directive 82/475, Directive 2002/32, Directive 2008/38, Regulation 1831/2003 or Regulation 767/2009 is a reference to that Annex as it may be amended from time to time.

(4) These Regulations do not apply to any feed additive in category (d) or (e) of Article 6(1) of Regulation 1831/2003, with the exception of those in the functional groups listed in paragraph 4(a), (b) and (c) of Annex 1 to that Regulation(4).

---

(1) OJ Rhif L 229, 1.9.2009, t 1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 939/2010 (OJ Rhif L 277, 21.10.2010, t 4).

(2) OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t 1. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 298/2008 Senedd Ewrop a’r Cyngor (OJ Rhif L 97, 9.4.2008, t 64).

(3) OJ Rhif L 268, 18.10.2003, t 29. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/2294 (OJ Rhif L 324, 10.12.2015, t 3).

(4) Mae categorïau (d) ac (e) o Erthygl 6(1) yn cynnwys, yn eu trefn, ychwanegion sootecnol, a chocsiostatau a histomonostatau. Mae’r grwpiau swyddogaethol a restrir ym mharagraffau 4(a), (b) ac (c) o Atodiad 1 yn cynnwys sylweddau gwella treuliadwyedd, sefydlogyddion fflora’r perfedd a sylweddau sy’n cael effaith ffafriol ar yr amgylchedd.

---

(1) OJ No L 268, 18.10.2003, p 1. This Regulation was last amended by Regulation (EC) No 298/2008 of the European Parliament and of the Council (OJ No L 97, 9.4.2008, p 64).

(2) OJ No L 268, 18.10.2003, p 29. This Regulation was last amended by Commission Regulation (EU) No 2015/2294 (OJ No L 324, 10.12.2015, p 3).

(3) OJ No L 229, 1.9.2009, p 1. This Regulation was last amended by Commission Regulation (EC) No 939/2010 (OJ No L 277, 21.10.2010, p 4).

(4) Categories (d) and (e) of Article 6(1) comprise, respectively, zootechnical additives, and coccidiostats and histomonostats. Functional groups listed in paragraphs 4(a), (b) and (c) of Annex I comprise digestibility enhancers, gut flora stabilisers and substances which favourably affect the environment.

## RHAN 2

### Gorfodi Rheoliad 178/2002

#### Dehongli'r Rhan hon

3. Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 178/2002.

#### Y drosedd o fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig yn Rheoliad 178/2002

4.—(1) Mae person sy'n mynd yn groes i ddarpariaeth a bennir ym mharagraff (2) neu sy'n methu â chydymffurfio â hi yn cyflawni trosedd.

(2) Y darpariaethau penodedig yw—

- (a) Erthygl 12, i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid (amodau ar allforio neu ailallforio i drydydd gwledydd);
- (b) Erthygl 15(1) (gwaharddiad ar roi bwyd anifeiliaid annïogel ar y farchnad neu ei fwydo i unrhyw anifail);
- (c) Erthygl 16, i'r graddau y mae'n ymwneud â bwyd anifeiliaid (gwaharddiad ar labelu, hysbysebu neu gyflwyno camarweiniol);
- (d) Erthygl 18(2) a (3) (gofynion bod rhaid i weithredwyr gael gwybodaeth olrhain a rhoi gwybodaeth o'r fath ar gael i'r awdurdodau cymwys) i'r graddau y mae'n ymwneud â gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid; ac
- (e) Erthygl 20 (cyfrifoldebau gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid o ran bwyd anifeiliaid nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid).

#### Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 178/2002

5. Yr awdurdod cymwys—

- (a) at ddibenion Erthyglau 15 a 18 yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei ardal; a
- (b) at ddibenion Erthygl 20 yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei ardal neu'r Asiantaeth.

## RHAN 3

### Gorfodi Rheoliad 1829/2003

#### Dehongli'r Rhan hon

6. Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 1829/2003.

## PART 2

### Enforcement of Regulation 178/2002

#### Interpretation of this Part

3. In this Part any reference to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in Regulation 178/2002.

#### Offence of failing to comply with a specified provision of Regulation 178/2002

4.—(1) A person who contravenes or fails to comply with a provision specified in paragraph (2) commits an offence.

(2) The specified provisions are—

- (a) Article 12, in so far as it relates to feed (conditions on export or re-export to third countries);
- (b) Article 15(1) (prohibition on the placing on the market or feeding to any animal of unsafe feed);
- (c) Article 16, in so far as it relates to feed (prohibition on misleading labelling, advertising or presentation);
- (d) Article 18(2) and (3) (requirements that operators must have traceability information and make such information available to competent authorities) in so far as it relates to feed business operators; and
- (e) Article 20 (responsibilities of feed business operators regarding feed that does not satisfy feed safety requirements).

#### Competent authorities for the purposes of Regulation 178/2002

5. The competent authority—

- (a) for the purposes of Articles 15 and 18 is the feed authority in its area; and
- (b) for the purposes of Article 20 is the feed authority in its area or the Agency.

## PART 3

### Enforcement of Regulation 1829/2003

#### Interpretation of this Part

6. In this Part any reference to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in Regulation 1829/2003.

### **Y drosedd o fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig yn Rheoliad 1829/2003**

7.—(1) Mae person sy'n mynd yn groes i ddarpariaeth a bennir ym mharagraff (2) neu sy'n methu â chydymffurfio â hi yn cyflawni trosedd.

(2) Y darpariaethau penodedig yw—

- (a) Erthygl 16(2) (gwaharddiad ar roi ar y farchnad, defnyddio neu brosesu cynnyrch y cyfeirir ato yn Erthygl 15(1)(1) oni bai ei fod wedi ei gwmpasu gan awdurdodiad a'i fod yn bodloni amodau perthnasol), fel y'i darllenir gydag Erthygl 20(6) (gofyniad bod rhaid i gynhyrchion y mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu mesur o dan yr Erthygl hon mewn perthynas â hwy gael eu tynnu'n ôl o'r farchnad);
- (b) Erthygl 21(1) (gofyniad bod rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad a'r partion o dan sylw gydymffurfio â'r amodau a osodir ar awdurdodiad ar gyfer y cynnyrch hwnnw, a bod rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gydymffurfio â gofynion monitro ar ôl i'r cynnyrch gael ei roi ar y farchnad);
- (c) Erthygl 21(3) (gofyniad bod deiliad awdurdodiad yn hysbysu'r Comisiwn am unrhyw wybodaeth wyddonol neu dechnegol newydd am gynnyrch a allai effeithio ar y gwerthusiad o ddiogelwch ei ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid, neu am unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar y bwyd anifeiliaid mewn trydedd wlad); a
- (d) Erthygl 25 (gofyniad am fynegiadau labelu penodol).

### **Yr awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad 1829/2003**

8. Yr Asiantaeth yw'r awdurdod cymwys cenedlaethol at ddibenion Pennod III o Reoliad 1829/2003.

### **Offence of failing to comply with a specified provision of Regulation 1829/2003**

7.—(1) A person who contravenes or fails to comply with a provision specified in paragraph (2) commits an offence.

(2) The specified provisions are—

- (a) Article 16(2) (prohibition on placing on the market, using or processing a product referred to in Article 15(1)(1) unless it is covered by an authorisation and satisfies relevant conditions), as read with Article 20(6) (requirement that products in relation to which the Commission has adopted a measure under this Article must be withdrawn from the market);
- (b) Article 21(1) (requirement that the authorisation holder and the parties concerned must comply with conditions imposed on an authorisation for that product, and that the authorisation holder must comply with post-market monitoring requirements);
- (c) Article 21(3) (requirement that an authorisation holder inform the Commission of any new scientific or technical information about a product which might affect the evaluation of the safety of its use in feed, or of any prohibition or restriction on the feed in a third country); and
- (d) Article 25 (requirement for certain labelling indications).

### **Competent authority for the purposes of Regulation 1829/2003**

8. The national competent authority for the purposes of Chapter III of Regulation 1829/2003 is the Agency.

---

(1) Y cynhyrchion y cyfeirir atynt yn Erthygl 15(1) yw organeddau a addaswyd yn enetig i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid sydd wedi ei wneud o organeddau a addaswyd yn enetig, neu sy'n cynnwys organeddau a addaswyd yn enetig a bwyd anifeiliaid a gynhyrchir o organeddau a addaswyd yn enetig.

---

(1) The products referred to in Article 15(1) are genetically modified organisms ("GMOs") for feed use, feed containing or consisting of GMOs and feed produced from GMOs.



## RHAN 4

### Gorfodi Rheoliad 1831/2003

#### Dehongli'r Rhan hon

9. Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 1831/2003.

#### Y drosedd o fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig yn Rheoliad 1831/2003

10.—(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n mynd yn groes i ddarpariaeth, neu'n methu cydymffurfio â darpariaeth, a bennir ym mharagraff (2) fel y'i darllenir, yn achos is-baragraff (a) neu (e), gydag Erthygl 2 (darpariaeth drosiannol) o Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/327 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran gofynion ynghylch rhoi ar y farchnad ac amodau defnyddio ychwanegion sy'n cynnwys paratodau(1).

(2) Y darpariaethau penodedig yw—

- (a) Erthygl 3(1) (gwaharddiad ar roi ar y farchnad, prosesu neu ddefnyddio ychwanegyn bwyd oni bai ei fod wedi ei gwmpasu gan awdurdodiad a'i fod yn bodloni amodau perthnasol), fel y'i darllenir gyda pharagraff (2) (awdurdodiad cenedlaethol at ddibenion arbrofol gwyddonol), paragraff (4) (amodau ar gymysgu ychwanegion) ac Erthygl 10 (statws cynhyrchion presennol);
- (b) Erthygl 3(3) (cyfyngiad ar y personau a gaiff roi ar y farchnad am y tro cyntaf ychwanegion penodol);
- (c) Erthygl 12(1) (gofyniad bod rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio neu'n rhoi ar y farchnad ychwanegyn, neu fwyd anifeiliaid y mae'r ychwanegyn wedi ei gynnwys ynddo, neu unrhyw barti arall a chanddo fuddiant, sicrhau bod unrhyw amodau sydd wedi eu gosod yn cael eu parchu);
- (d) Erthygl 12(2) (gofyniad bod deiliad awdurdodiad yn cadw at rwymedigaethau monitro pan fyddant wedi eu gosod, yn hysbysu'r Comisiwn am unrhyw wybodaeth newydd am gynnyrch a allai effeithio ar y gwerthusiad o ddiogelwch ei ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid, neu am unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar y bwyd anifeiliaid sydd wedi ei osod gan yr awdurdod cymwys mewn trydedd wlad);

## PART 4

### Enforcement of Regulation 1831/2003

#### Interpretation of this Part

9. In this Part any reference to a numbered Article is a reference to the Article so numbered in Regulation 1831/2003.

#### Offence of failing to comply with a specified provision of Regulation 1831/2003

10.—(1) A person commits an offence if that person contravenes or fails to comply with a provision specified in paragraph (2) as read, in the case of subparagraph (a) or (e) with Article 2 (transitional provision) of Commission Regulation (EU) No 2015/327 amending Regulation (EC) No 1831/2003 of the European Parliament and of the Council as regards requirements for the placing on the market and conditions of use of additives consisting of preparations(1).

(2) The specified provisions are—

- (a) Article 3(1) (prohibition on placing on the market, processing or using a feed additive unless it is covered by an authorisation and satisfies relevant conditions), as read with paragraph (2) (national authorisation for scientific experimental purposes), paragraph (4) (conditions on mixing of additives) and Article 10 (status of existing products);
- (b) Article 3(3) (restriction on the persons who may first place on the market certain additives);
- (c) Article 12(1) (requirement that any person using or placing on the market an additive, or a feed into which it has been incorporated, or any other interested party, must ensure that any conditions which have been imposed are respected);
- (d) Article 12(2) (requirement on the holder of an authorisation to observe monitoring obligations where they have been imposed, to inform the Commission of any new information about a product which might affect the evaluation of the safety of its use in feed, or of any prohibition or restriction on the feed imposed by the competent authority in a third country);

(1) OJ Rhif L 58, 3.3.2015, t 46.

(1) OJ No L 58, 3.3.2015, p 46.

- (e) Erthygl 16(1), (3) a (4) (gwaharddiad ar roi ar y farchnad ychwanegion bwyd anifeiliaid neu rag-gymysgeddau oni bai eu bod wedi eu labelu yn y modd penodedig ac â'r wybodaeth ragnodedig), fel y'i darllenir gyda pharagraff (2) (rhanddirymiad ar gyfer cyfansoddion blasu penodol); ac
- (f) Erthygl 16(5) (gofyniad bod rhaid i ychwanegion a rhag-gymysgeddau gael eu marchnata mewn pecynnau neu gynnwysyddion caeedig y mae rhaid eu bod wedi eu cau yn y fath ffordd fel bod y sêl yn cael ei difrodi wrth agor y pecynnau neu'r cynnwysyddion ac na ellir eu haildefnyddio).

- (e) Article 16(1), (3) and (4) (prohibition on the placing on the market of feed additives or premixtures unless labelled in the specified manner and with prescribed information), as read with paragraph (2) (derogation for certain flavouring compounds); and
- (f) Article 16(5) (requirement that additives and premixtures must be marketed only in closed packages or containers which must be closed in such a way that the fastener is damaged on opening and cannot be re-used).

## RHAN 5

### Gorfodi Rheoliad 767/2009

#### Dehongli'r Rhan hon ac Atodlen 1

11. Yn y Rhan hon ac yn Atodlen 1 mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodiad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 767/2009.

#### Y drosedd o fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig yn Rheoliad 767/2009

12.—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol a geir yn Erthygl 32, mae person—

- (a) sy'n mynd yn groes i ddarpariaeth yn Rheoliad 767/2009 a bennir yn Atodlen 1 neu sy'n methu â chydymffurfio â hi; neu
- (b) sy'n rhoi ar y farchnad neu'n defnyddio bwyd anifeiliaid sy'n methu â chydymffurfio ag Erthygl 6(1) neu 8,

yn cyflawni trosedd.

(2) Pan ganiateir, yn unol ag Erthygl 17(2)(c), i enw'r categori y mae'r bwyd anifeiliaid yn perthyn iddo gael ei roi yn lle enw deunydd bwyd anifeiliaid penodol, dim ond y categorïau a restrir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475 y caniateir eu nodi.

#### Yr awdurdodau cymwys at ddibenion Rheoliad 767/2009

13.—(1) Pob awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei ardal yw'r awdurdod cymwys at ddibenion—

- (a) Erthygl 5(3), 13(1)(a) a 17(3) ac Atodiad VII, Pennod 1, paragraff 8; a

## PART 5

### Enforcement of Regulation 767/2009

#### Interpretation of this Part and Schedule 1

11. In this Part and in Schedule 1 any reference to a numbered Article or Annex is a reference to the Article or Annex so numbered in Regulation 767/2009.

#### Offence of failing to comply with a specified provision of Regulation 767/2009

12.—(1) Subject to the transitional provisions contained in Article 32, a person who—

- (a) contravenes or fails to comply with a provision of Regulation 767/2009 specified in Schedule 1; or
- (b) places on the market or uses a feed that fails to comply with Article 6(1) or 8,

commits an offence.

(2) Where, pursuant to Article 17(2)(c), the name of a specific feed material may be replaced by the name of the category to which the feed material belongs, only the categories listed in the Annex to Directive 82/475 may be indicated.

#### Competent authorities for the purposes of Regulation 767/2009

13.—(1) Each feed authority in its area is the competent authority for the purposes of—

- (a) Article 5(3), 13(1)(a) and 17(3) and Annex VII, Chapter 1, paragraph 8; and

- (b) Erthygl 13(1)(b) fel yr awdurdod cymwys a gaiff ofyn am gadarnhad gwyddonol o honiad ac y mae gan bwrcaswyr yr hawl i ddwyn amheuan ynghylch gwirionedd honiad i'w sylw.

(2) Yr Asiantaeth yw'r awdurdod cymwys at ddibenion—

- (a) Erthygl 26(1)(b); a  
(b) Erthygl 13(1)(b) fel yr awdurdod cymwys a gaiff gyflwyno i'r Comisiwn amheuan ynghylch cadarnhad gwyddonol o honiad.

(3) Mae'r Asiantaeth a phob awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei hardal yn awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 5(2).

- (b) Article 13(1)(b) as the competent authority that may request scientific substantiation of a claim and to whose attention purchasers have the right to bring doubts regarding the truthfulness of a claim.

(2) The Agency is the competent authority for the purposes of—

- (a) Article 26(1)(b); and  
(b) Article 13(1)(b) as the competent authority that may submit to the Commission doubts concerning the scientific substantiation of a claim.

(3) The Agency and each feed authority in its area is a competent authority for the purposes of Article 5(2).

## RHAN 6

### Gweithredu Cyfarwyddeb 2002/32

#### Dehongli'r Rhan hon

14. Yn y Rhan hon—

- (a) mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodiad sy'n dwyn y rhif hwnnw yng Nghyfarwyddeb 2002/32; a  
(b) ystyr “sylwedd annymunol” (“*undesirable substance*”) yw unrhyw sylwedd neu gynnyrch, nad yw'n asiant pathogenig, sy'n bresennol mewn bwyd anifeiliaid neu arno ac—  
(i) sy'n ffurfio perygl posibl i iechyd pobl neu anifeiliaid neu i'r amgylchedd, neu  
(ii) a allai gael effaith andwyol ar gynhyrchu da byw.

#### Rheoli bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys sylweddau annymunol

15.—(1) Mae person—

- (a) sy'n rhoi ar y farchnad unrhyw fwyd anifeiliaid a bennir yng ngholofn 2 o Atodiad I; neu  
(b) sy'n defnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid o'r fath,

yn cyflawni trosedd os yw'n cynnwys unrhyw sylwedd annymunol a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodiad hwnnw yn fwy nag uchafswm y cynnwys perthnasol a bennir yng ngholofn 3.

(2) Mae person sy'n rhoi ar y farchnad neu'n defnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid cydategol yn cyflawni trosedd os—

## PART 6

### Implementation of Directive 2002/32

#### Interpretation of this Part

14. In this Part—

- (a) any reference to a numbered Article or Annex is a reference to the Article or Annex so numbered in Directive 2002/32; and  
(b) “undesirable substance” (“*sylwedd annymunol*”) means any substance or product, not being a pathogenic agent, which is present in or on a feed and—  
(i) constitutes a potential danger to human or animal health or to the environment, or  
(ii) could adversely affect livestock production.

#### Control of animal feeds containing undesirable substances

15.—(1) A person who—

- (a) places on the market any feed that is specified in column 2 of Annex I; or  
(b) uses any such feed,

commits an offence if it contains any undesirable substance listed in column 1 of that Annex in excess of the relevant maximum content specified in column 3.

(2) A person who places on the market or uses any complementary feed commits an offence if—

(a) ar ôl ystyried faint ohono yr argymhellir ei ddefnyddio mewn dogn dyddiol, yw'n cynnwys unrhyw sylwedd annymunol a restrir yng ngholofn 1 o Atodiad I yn fwy nag uchafswm y cynnwys a bennir ar ei gyfer yng ngholofn 3 mewn perthynas â bwydydd anifeiliaid cyflawn; a

(b) nad oes darpariaeth sy'n ymwneud ag unrhyw fwyd anifeiliaid cydategol yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Atodiad hwnnw.

(3) Mae person sydd at ddiben gwanhau yn cymysgu unrhyw fwyd anifeiliaid â bwyd anifeiliaid a bennir yng ngholofn 2 o Atodiad I ac sy'n cynnwys unrhyw sylwedd annymunol a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodiad hwnnw yn fwy nag uchafswm y cynnwys a bennir ar ei gyfer yng ngholofn 3 yn cyflawni trosedd.

(4) Mae person sy'n rhoi ar y farchnad neu'n defnyddio unrhyw fwyd anifeiliaid nad yw'n gadarn ac yn ddilys ac o ansawdd marchnadwy yn cyflawni trosedd.

(5) At ddibenion paragraff (4) ni thybir bod bwyd anifeiliaid a restrir yng ngholofn 2 o Atodiad I yn gadarn, yn ddilys ac o ansawdd marchnadwy os yw'n cynnwys unrhyw sylwedd annymunol a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodiad hwnnw yn fwy nag uchafswm y cynnwys a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn 3.

(6) Rhaid i berson sydd ag unrhyw un neu ragor o'r bwydydd anifeiliaid a bennir ym mharagraff (7) yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth, at ddiben masnach neu fusnes, os yw arolygydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, gael dadansoddiad a'i roi i'r arolygydd er mwyn dangos bod cynnwys yr arsenig anorganig yn y bwyd anifeiliaid a bennir yn y paragraff hwnnw yn llai na 2 ran y filiwn.

(7) Y bwydydd anifeiliaid yw—

- (a) soeg cnewyll palmwydd;
- (b) bwydydd anifeiliaid a gafwyd drwy brosesu pysgod ac anifeiliaid morol eraill;
- (c) blawd gwymon a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n deillio o wymon; a
- (d) bwydydd anifeiliaid cyflawn ar gyfer pysgod neu ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu ffwr.

(8) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â gofyniad a wneir o dan baragraff (6) yn cyflawni trosedd.

(a) having regard to the quantity of it recommended for use in a daily ration, it contains any undesirable substance listed in column 1 of Annex I in excess of the maximum content specified for it in column 3 in relation to complete feeds; and

(b) there is no provision relating to any complementary feed in the corresponding entry in column 2 of that Annex.

(3) A person who for the purpose of dilution mixes any feed with a feed that is specified in column 2 of Annex I and which contains any undesirable substance listed in column 1 of that Annex in excess of the maximum content specified for it in column 3 commits an offence.

(4) A person who places on the market or uses any feed which is not sound and genuine and of merchantable quality commits an offence.

(5) For the purposes of paragraph (4) a feed listed in column 2 of Annex I shall be deemed not to be sound, genuine and of merchantable quality if it contains any undesirable substance specified in column 1 of that Annex in excess of the maximum content specified in relation to it in column 3.

(6) A person who has, for the purpose of a trade or business, possession or control of any of the feeds specified in paragraph (7) must, if required by an inspector, procure and produce to the inspector an analysis in order to demonstrate that the content of inorganic arsenic in the feed specified in that paragraph is less than 2 parts per million.

(7) The feeds are—

- (a) palm kernel expeller;
- (b) feeds obtained from the processing of fish and other marine animals;
- (c) seaweed meal and feed materials derived from seaweed; and
- (d) complete feeds for fish or for fur-producing animals.

(8) A person who, without reasonable excuse, fails to comply with a requirement made under paragraph (6) commits an offence.

## RHAN 7

Gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38

### Dehongli'r Rhan hon

16. Yn y Rhan hon, ystyr “yr Atodiad” (“*the Annex*”) yw Rhan B o Atodiad I i Gyfarwyddeb 2008/38, fel y’i darllenir gyda pharagraffau 1 a 7 o Ran A o’r Atodiad hwnnw.

### Rheoli bwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol

17.—(1) Mae person sy’n rhoi ar y farchnad fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddiben maethol penodol yn cyflawni trosedd os nad yw gofynion perthnasol paragraffau (2) i (9) wedi eu bodloni.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw ddiben maethol penodol a bennir yng ngholofn 1 o’r Atodiad—

- (a) rhaid i’r bwyd anifeiliaid fod wedi ei fwriadu ar gyfer yr anifeiliaid a bennir gyferbyn â’r diben maethol penodol hwnnw yng ngholofn 3 o’r Atodiad; a
- (b) rhaid argymhell bod y bwyd anifeiliaid yn cael ei ddefnyddio am gyfnod o amser sy’n dod o fewn yr amrediad a bennir gyferbyn â’r diben maethol penodol hwnnw yng ngholofn 5 o’r Atodiad.

(3) Pan fo grŵp o ychwanegion wedi ei bennu yng ngholofn 2 neu 4 o’r Atodiad, rhaid i’r ychwanegion a ddefnyddir fod wedi eu hawdurdodi fel rhai sy’n cyfateb i’r nodwedd hanfodol benodedig.

(4) Pan fo’n ofynnol rhoi ffynhonnell cynhwysion neu gyfansoddion dadansoddol yng ngholofn 4 o’r Atodiad, rhaid i’r gweithgynhyrchwr wneud datganiad manwl-gywir (er enghraifft enw penodol y cynhwysyn, rhywogaeth yr anifail neu’r rhan o’r anifail) sy’n caniatáu ar gyfer gwerthuso cydymffurfiaeth y bwyd anifeiliaid â’r nodweddion maethol hanfodol cyfatebol.

(5) Pan fo’n ofynnol rhoi’r datganiad am sylwedd sydd hefyd wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn yng ngholofn 4 o’r Atodiad a’i fod yn dod gyda’r ymadrodd “total”, rhaid i’r cynnwys a ddatgenir gyfeirio at faint sy’n bresennol yn naturiol pan na chaiff unrhyw swm ei ychwanegu neu, fel y bo’n briodol, at gyfanswm y sylwedd sy’n bresennol yn naturiol a’r swm a ychwanegir fel ychwanegyn.

(6) Rhaid darparu’r datganiadau a bennir yng ngholofn 4 o’r Atodiad gyda’r cyfeiriad “if added” pan fo’r cynhwysyn neu’r ychwanegyn wedi ei ymgorffori neu ei gynyddu’n benodol er mwyn gallu cyflawni’r diben maethol penodol.

## PART 7

Implementation of Directive 2008/38

### Interpretation of this Part

16. In this Part, “the Annex” (“*yr Atodiad*”) means Part B of Annex I to Directive 2008/38, as read with paragraphs 1 and 7 of Part A of that Annex.

### Control of feed intended for particular nutritional purposes

17.—(1) A person who places on the market a feed intended for a particular nutritional purpose commits an offence if the relevant requirements of paragraphs (2) to (9) are not met.

(2) In relation to any particular nutritional purpose specified in column 1 of the Annex—

- (a) the feed must be intended for the animals specified opposite that particular nutritional purpose in column 3 of the Annex; and
- (b) it must be recommended that the feed be used for a period of time falling within the range specified opposite that particular nutritional purpose in column 5 of the Annex.

(3) Where a group of additives is specified in column 2 or 4 of the Annex, the additives used must be authorised as corresponding to the specified essential characteristic.

(4) Where the source of ingredients or analytical constituents is required in column 4 of the Annex, the manufacturer must make a precise declaration (for example the specific name of the ingredient, the animal species or the part of the animal) allowing the evaluation of conformity of the feed with the corresponding essential nutritional characteristics.

(5) Where the declaration of a substance that is also authorised as an additive is required in column 4 of the Annex and is accompanied by the expression “total”, the declared content must refer to the quantity naturally present where none is added or, as appropriate, the total quantity of the substance naturally present and the amount added as an additive.

(6) The declarations specified in column 4 of the Annex with the reference “if added” must be provided where the ingredient or the additive has been incorporated or increased specifically to enable the achievement of the particular nutritional purpose.



(7) Rhaid i'r datganiadau sydd i gael eu rhoi yn unol â cholofn 4 o'r Atodiad ynghylch cyfansoddion dadansoddol ac ychwanegion fod yn rhai meintiol.

(8) Pan fo bwyd anifeiliaid wedi ei fwriadu i gyflawni mwy nag un diben maethol penodol, rhaid iddo gydymffurfio â'r cofnodion cyfatebol yn yr Atodiad.

(9) Yn achos bwyd anifeiliaid cydategol a fwriedir at ddiben maethol penodol, rhaid rhoi canllawiau ar gydbwysedd y dogn dyddiol yn y cyfarwyddiadau defnyddio a geir ar y label.

## RHAN 8

### Gweinyddu a gorfodi

#### Cosbau am droseddau o dan y Rheoliadau hyn

**18.**—(1) Mae person a ddyfernir yn euog o drosedd o dan reoliad 4(1), 7(1), 10(1), 12(1), 15(1), (2), (3), neu (4) neu 17(1) yn agored ar euogfarn ddiannod i gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na chwe mis neu i ddirwy, neu i'r ddau.

(2) Mae person a ddyfernir yn euog o drosedd o dan reoliad 15(8) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

#### Dyletswyddau i orfodi

**19.** Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei ardal i weithredu a gorfodi Rheoliad 178/2002, Rheoliad 1829/2003, Rheoliad 1831/2003, Rheoliad 767/2009 a'r Rheoliadau hyn.

## RHAN 9

### Diwygio a dirymu

#### Diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

**20.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(1) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn Atodlen 2 (diffiniad o gyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol)—

- (a) hepgorer paragraff (c); a

(7) The declarations to be given in accordance with column 4 of the Annex concerning analytical constituents and additives must be quantitative.

(8) Where a feed is intended to meet more than one particular nutritional purpose, it must comply with the corresponding entries in the Annex.

(9) In the case of a complementary feed intended for a particular nutritional purpose, guidance on the balance of the daily ration must be provided in the instructions for use on the label.

## PART 8

### Administration and enforcement

#### Penalties for offences under these Regulations

**18.**—(1) A person found guilty of an offence under regulation 4(1), 7(1), 10(1), 12(1), 15(1), (2), (3) or (4) or 17(1) is liable on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding six months or to a fine, or both.

(2) A person found guilty of an offence under regulation 15(8) is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

#### Duties to enforce

**19.** It is the duty of each feed authority within its area to execute and enforce Regulation 178/2002, Regulation 1829/2003, Regulation 1831/2003, Regulation 767/2009 and these Regulations.

## PART 9

### Amendment and revocation

#### Amendment of the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009

**20.**—(1) The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2009(1) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In Schedule 2 (definition of relevant feed law)—

- (a) omit paragraph (c); and

---

(1) O.S. 2009/3376 (Cy. 298).

---

(1) S.I. 2009/3376 (W. 298).

(b) ym mharagraff (dd), yn lle “Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2010” rhodder “Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016”.

(b) in paragraph (f), for “the Animal Feed (Wales) Regulations 2010” substitute “the Animal Feed (Composition, Marketing and Use) (Wales) Regulations 2016”.

### **Dirymiadau**

**21.** Mae’r Rheoliadau a restrir yn y golofn gyntaf o Atodlen 2 wedi eu dirymu i’r graddau a bennir yn yr ail golofn.

### **Revocations**

**21.** The Regulations listed in the first column of Schedule 2 are revoked to the extent specified in the second column.

*Vaughan Gething*

Y Dirprwy Weinidog Iechyd, un o Weinidogion  
Cymru  
15 Mawrth 2016

Deputy Minister for Health, one of the Welsh  
Ministers  
15 March 2016

Darpariaethau Penodedig Rheoliad  
767/2009

Specified Provisions of Regulation  
767/2009

<i>Y ddarpariaeth benodedig</i>	<i>Y pwnc</i>
Erthygl 4(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 4(3) ac Atodiad I	Gofynion diogelwch cyffredinol a gofynion eraill sydd i gael eu bodloni pan roddir bwyd anifeiliaid ar y farchnad neu pan y'i defnyddir
Erthygl 5(1)	Estyn y gofynion mewn perthynas â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd mewn deddfwriaeth arall i fod yn gymwys i fwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd
Erthygl 5(2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Rhwymedigaeth ar berson sy'n gyfrifol am labelu i roi'r wybodaeth ar gael i'r awdurdod cymwys
Erthygl 6(1), fel y'i darllenir gydag Atodiad III	Gwaharddiad neu gyfyngiad ar farchnata neu ddefnyddio deunyddiau penodol at ddibenion maeth anifeiliaid
Erthygl 8	Rheolaethau ar y lefelau o ychwanegion mewn bwydydd anifeiliaid
Erthygl 9	Rheolaethau ar farchnata bwydydd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol
Erthygl 11, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3), Atodiadau II a IV a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid	Rheolau ac egwyddorion sy'n llywodraethu labelu a chyflwyno bwyd anifeiliaid

<i>Specified provision</i>	<i>Subject matter</i>
Article 4(1) and (2), as read with Article 4(3) and Annex I	General safety and other requirements to be met when feed is placed on the market or used
Article 5(1)	Extension of requirements in relation to feed for food-producing animals in other legislation to apply to feed for non food-producing animals
Article 5(2), as read with Article 12(1), (2) and (3)	Obligation on person responsible for labelling to make information available to competent authority
Article 6(1), as read with Annex III	Prohibition or restriction on the marketing or use of certain materials for animal nutritional purposes
Article 8	Controls on the levels of additives in feeds
Article 9	Controls on the marketing of feeds for particular nutritional purposes
Article 11, as read with Article 12(1), (2) and (3), Annexes II and IV and the Catalogue of feed materials	Rules and principles governing the labelling and presentation of feed

Erthygl 12(4) a (5)	Dynodiad y person sy'n gyfrifol am labelu a rhwymedigaethau a chyfrifoldebau'r person hwnnw
Erthygl 13(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Amodau cyffredinol ar wneud honiad ynghylch nodweddion neu swyddogaethau bwyd anifeiliaid wrth ei labelu neu ei gyflwyno
Erthygl 13(2) a (3), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Amodau arbennig sy'n gymwys i honiadau ynghylch gwneud yr eithaf o'r maeth ac ynghylch cynnal neu warchod yr amodau ffisiolegol
Erthygl 14(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Gofynion ar gyfer cyflwyno'r manylion labelu mandadol
Erthygl 15, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 a chydag Atodiad VI a VII	Manylion labelu mandadol cyffredinol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd
Erthygl 16, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) ac 21 a chydag Atodiad II a V a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid	Gofynion labelu penodol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid
Erthygl 17(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 a chydag Atodiad II, VI a VII	Gofynion labelu penodol ar gyfer bwydydd anifeiliaid cyfansawdd
Erthygl 18, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (bwydydd anifeiliaid deietegol)
Erthygl 19, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes

Article 12(4) and (5)	Designation of the person responsible for labelling and the obligations and responsibilities of that person
Article 13(1), as read with Article 12(1), (2) and (3)	General conditions on making a claim about the characteristics or functions of a feed on the labelling or presentation of it
Article 13(2) and (3), as read with Article 12(1), (2) and (3)	Special conditions applying to claims concerning optimisation of the nutrition and support or protection of the physiological conditions
Article 14(1) and (2), as read with Article 12(1), (2) and (3)	Requirements for the presentation of the mandatory labelling particulars
Article 15, as read with Articles 12(1), (2) and (3) and 21 and with Annex VI and VII	General mandatory labelling requirements for feed materials and compound feeds
Article 16, as read with Article 12(1), (2) and (3) and 21 and with Annex II and V and the Catalogue of feed materials	Specific labelling requirements for feed materials
Article 17(1) and (2) as read with Articles 12(1), (2) and (3) and 21 and with Annex II, VI & VII	Specific labelling requirements for compound feeds
Article 18, as read with Article 12(1), (2) and (3)	Additional labelling requirements for feed for particular nutritional purposes (dietetic feeds)
Article 19, as read with Article 12(1), (2) and (3)	Additional labelling requirements for pet food

Erthygl 20(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) a chydag Atodiad VIII	Gofynion ychwanegol ar gyfer labelu bwyd anifeiliaid nad yw'n cydymffurfio, megis bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys deunyddiau halogedig
Erthygl 23	Gofynion sy'n ymwneud â phecyntu a selio deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer eu rhoi ar y farchnad
Erthygl 24(5)	Gofyniad, os defnyddir enw deunydd bwyd anifeiliaid a restrir yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Catalog
Erthygl 24(6)	Rhwymedigaeth ar berson sy'n rhoi ar y farchnad am y tro cyntaf ddeunydd bwyd anifeiliaid nad yw wedi ei restru yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid i hysbysu am ei ddefnydd
Erthygl 25(4)	Gofyniad, os nodir y defnydd o Godau'r UE o arferion labelu da ar labeli, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Codau

Article 20(1) as read with Article 12(1), (2) and (3) and with Annex VIII	Additional requirements for labelling of non-compliant feed, such as that containing contaminated materials
Article 23	Requirements relating to the packaging and sealing of feed materials and compound feeds for placing on the market
Article 24(5)	Requirement that if the name of a feed material listed in the Catalogue of feed materials is used, all relevant provisions of the Catalogue must be complied with
Article 24(6)	Obligation on a person who first places on the market a feed material not listed in the Catalogue of feed materials to notify its use
Article 25(4)	Requirement that if use of the EU Codes of good labelling practice is indicated on labelling, all relevant provisions of the codes must be complied with



Dirymiadau

<i>Rheoliadau</i>	<i>Rhychwant</i>
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3221) (Cy. 277)	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ýd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2007 (O.S. 2007/3173) (Cy. 278)	Y Rheoliadau cyfan
Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2652) (Cy. 220)	Y Rheoliadau cyfan ac eithrio rheoliadau 1, 2 a 14.

©©Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Revocations

<i>Regulations</i>	<i>Extent</i>
The Genetically Modified Animal Feed (Wales) Regulations 2004 (S.I. 2004/3221) (W. 277)	The whole Regulations
The Feed (Corn Gluten Feed and Brewers Grains) (Emergency Control) (Wales) (Revocation) Regulations 2007 (S.I. 2007/3173) (W. 278)	The whole Regulations
The Animal Feed (Wales) Regulations 2010 (S.I. 2010/2652) (W. 220)	The whole Regulations other than regulations 1, 2 and 14.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2016 Rhif 386 (Cy. 120)**

**2016 No. 386 (W. 120)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**AGRICULTURE, WALES**

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid  
(Cyfansoddiad, Marchnata a  
Defnydd) (Cymru) 2016

The Animal Feed (Composition,  
Marketing and Use) (Wales)  
Regulations 2016

£6.00

W2648/03/16

ON

ISBN 978-0-348-11292-4



9 780348 112924